
Adroddiad Blynyddol Ofcom i Gomisiynydd y Gymraeg

Ein cynnydd o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg –
2018-19

Cynnwys

Adran

- | | |
|------------------------|---|
| 1. Gwybodaeth am Ofcom | 1 |
| 2. Ein dull gweithredu | 3 |

Atodiad

- | | |
|--|---|
| A1. Ein gweithdrefn safonol ar gyfer cyfieithu dogfennau | 6 |
|--|---|

1. Gwybodaeth am Ofcom

- 1.1 Ofcom yw'r rheoleiddiwr cyfathrebiadau annibynnol yn y Deyrnas Unedig. Mae ein pencadlys yn Llundain. Rydym yn rheoleiddio'r sectorau teledu, radio, a fideo ar-alw, telegyfathrebiadau llinellau sefydlog, ffonau symudol, gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn gwneud yn siŵr bod pobl yn y Deyrnas Unedig yn cael y gorau o'u gwasanaethau cyfathrebiadau a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag twyll ac arferion cyfrwys, ar yr un pryd â sicrhau bod cystadleuaeth yn gallu ffynnu. Mae ein pwerau a'n dyletswyddau wedi cael eu gosod mewn nifer o Ddeddfau Seneddol.
- 1.2 Caiff Ofcom ei ariannu drwy'r ffioedd a ddaw o'r diwydiant am reoleiddio darlledu, rhwydweithiau cyfathrebiadau a gwasanaethau post. Mae ein cyllideb yn cael ei gosod gan y Llywodraeth ac, fel corff cyhoeddus, rydym yn chwilio am arbedion effeithlonrwydd lle bynnag y bo'n bosibl. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyflawni gostyngiadau gwariant tebyg-i-debyg mewn termau real.

Ofcom yng Nghymru

- 1.3 Er bod pencadlys Ofcom yn Llundain, rydym yn sicrhau bod gennym bersbectif ar draws gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae gennym ddyletswydd statudol i roi sylw dyledus, ymysg pethau eraill, i safbwyntiau a buddiannau'r rhai sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig. Mae ein gweithrediadau yn y Gwledydd yn cael eu harwain gan uwch Gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin a Llundain. Mae ein Swyddfeydd Cenedlaethol yn gallu defnyddio adnoddau llawn y sefydliad cyfan i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar un rhan o'r Deyrnas Unedig.
- 1.4 Mae swyddfa Ofcom Cymru yng Nghaerdydd ac mae'n cyflogi pedwar aelod o staff amser llawn, ac un aelod o staff rhan-amser. Mae'r rhan fwyaf o'r cyd-weithwyr hyn yn siarad Cymraeg yn rhugl ac mae un arall yn dysgu Cymraeg – ochr yn ochr ag Aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru, Ofcom.¹ Mae Ofcom yn darparu gwybodaeth i annog staff i ddysgu Cymraeg ar y fewnrwyd staff. Mae'r sefydliad yn talu am wersi Cymraeg i staff hefyd.
- 1.5 Nid yw Ofcom Cymru wedi recriwtio staff newydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ymrwymiad Ofcom i'r iaith Gymraeg

- 1.6 Mae Ofcom yn gweithio'n galed i gyflawni ein rhwymedigaethau iaith Gymraeg. Rydym yn falch o'n hymrwymiad a'r ffordd yr ydym yn integreiddio'r iaith Gymraeg yn ein gwaith mewn ffordd ymarferol. Rydym yn mynd ati'n frwd i annog pobl i gyfathrebu ag Ofcom yn yr iaith o'u dewis, boed hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg.

¹ Ofcom sy'n ariannu'r gwersi Cymraeg hyn. Maen nhw'n cael eu darparu ddwywaith yr wythnos i staff gan diwtor allanol sy'n ymweld â swyddfa Ofcom Cymru.

- 1.7 Yn 2017, fe wnaethom gynyddu ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg drwy roi'r Safonau newydd ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys 141 o ymrwymadau gan Ofcom i'n gwaith yn y Gymraeg, fel rhagor o ymchwil ymysg defnyddwyr a gwybodaeth am ein gwaith.
- 1.8 Mae [hysbysiad cydymffurfio terfynol Ofcom](#) gan Gomisiynydd y Gymraeg wedi cael [awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth](#) lawn Ofcom.
- 1.9 Mae Uwch Gyngorydd yr Iaith Gymraeg yn rheoli gweithgareddau Ofcom yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gofynion cyfieithu, cyfryngau cymdeithasol, cynyrchiadau ar bapur ac ar-lein. Hi sy'n gwneud yn siŵr bod y sefydliad yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg sydd mewn deddfwriaeth.

Ymgysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg

- 1.10 Mae Ofcom wedi ymgysylltu'n adeiladol â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am nifer o flynyddoedd, gan wneud yn siŵr bod gennym ddealltwriaeth drylwyr o ofynion y Comisiynydd.
- 1.11 Rydym wedi mynychu sesiynau briffio wedi'u trefnu gan y Comisiynydd, wedi ymateb yn brydlon i bob ymholiad ac wedi trefnu cyfarfodydd â Chomisiynydd y Gymraeg i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn ein gwaith.

2. Ein dull gweithredu

2.1 Nod Ofcom yw trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Wrth ddarparu gwasanaeth yn yr iaith Gymraeg, rydym bob amser yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae hyn yn berthnasol i'r canlynol:

- cyflwyno deunydd yn weledol;
- pryd a sut mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos;
- maint, safle ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus, a'i fformat cyhoeddi.

Mae ein dull wedi'i ddylunio i alluogi dinasyddion a defnyddwyr i ymgysylltu â materion cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

2.2 Ein nod yw arloesi yn ein cyfathrebiadau ac annog mwy o ymgysylltu gan siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwahodd amryw o gyfranwyr allanol Cymraeg i gymryd rhan yn ein digwyddiadau cyhoeddus, cynhyrchu cynnwys rhyngweithiol Cymraeg a chyhoeddi cynnwys sy'n ymwneud â Chymru ar gyfryngau cymdeithasol.

2.3 Wrth benderfynu pryd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg, rydym yn defnyddio maen prawf cyson. Os yw'r gwasanaeth dan sylw yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr, dinasyddion neu fusnesau yng Nghymru, neu'n debygol o fod yn arbennig o berthnasol iddynt, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg fel mater o drefn.

2.4 Wrth gynhyrchu ein cyfathrebiadau Cymraeg, rydyn ni'n teilwra ein dull gweithredu, gan wneud yn siŵr bod y cynnwys yn berthnasol i'n cynulleidfaoedd yng Nghymru a'u bod wedi'u cyfleu mewn ffordd a fyddai o ddiddordeb iddynt. Ceir enghreifftiau isod.

Ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf

2.5 Rydym yn cadw ein hymrwymiad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a galluogi pobl i gyfathrebu ag Ofcom yn yr iaith o'u dewis, boed hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg. Rydym wedi cyflawni hyn mewn ffordd sy'n gymesur ac yn gyson â'n dyletswyddau presennol.

2.6 Cyfieithiodd Ofcom tua 750,000 o eiriau i'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf². Rydym wedi ymrwmo i gydymffurfio â'r Safonau sy'n ymwneud â chyfieithu.

2.7 Mae angen i ni wneud yn siŵr bod ein cyfathrebiadau yn gweithio i'r gynulleidfa. Mae'r tabl isod yn dangos y dylem ystyried ffyrdd eraill o rannu gwybodaeth â'n cynulleidfaoedd, sydd wedi dangos diddordeb brwd yn ein fideos cyfrwng Cymraeg yr ydym wedi'u rhannu ar gyfryngau cymdeithasol.³

² O fis Gorffennaf 2018 i fis Gorffennaf 2019

³ Cafodd ein fideos Dibyniaeth Ddigidol, wedi'u ffilmio'n Gymraeg yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'u rhannu ar ein cyfrif Twitter Cymraeg newydd ym mis Awst 2018, eu gwyllo dros 500 gwaith mewn diwrnod.

Enw'r ddogfen	Cyfanswm lawrlwythiadau unigryw dros gyfnod o fis o'r dyddiad cyhoeddi	
	Saesneg	Cymraeg
Adroddiad Blynyddol Ofcom 2019	943	5
Cysylltu'r Gwledydd: Cymru 2018	48	9
Cyfryngau'r Genedl: Cymru 2019	25	5
Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC 2018	871	11

**Nodwch nad yw'r ffigurau hyn yn cynnwys chwiliadau o Google nac o ddolenni uniongyrchol*

- 2.9 Gwnaethon ni lansio ein cyfrif Twitter Cymraeg, [@OfcomCymraeg](#), ym mis Rhagfyr 2017 i rannu gwaith Ofcom yn Gymraeg. Rydym yn hyrwyddo ein cyfrif Cymraeg ar gyfrif Twitter Saesneg Ofcom yn rheolaidd, a drwy'r Awr Gymraeg ac yn ein digwyddiadau. Mae cyfrif Twitter Cymraeg Ofcom wedi bod yn cyhoeddi negeseuon trydar yn rheolaidd (4 neges y diwrnod ar gyfartaledd) ac wedi creu dros 2,000 o negeseuon i gyd, ond dim ond 240 o ddilynwyr sydd ganddo. Mae gan y cyfrif Saesneg 42,800 o ddilynwyr. Mae hyn yn awgrymu bod angen dull gweithredu cymesur ar gyfer ein hallbwn ar gyfryngau cymdeithasol.
- 2.10 Pan fo'n bosibl, rydym yn darparu gwybodaeth wedi'i theilwra i siaradwyr Cymraeg drwy'r cyfrif [@OfcomCymraeg](#). Mae siaradwyr Cymraeg yn gallu siarad Saesneg yn rhugl hefyd, ac yn gwerthfawrogi negeseuon pwrpasol yn Gymraeg yn hytrach na darllen cyfieithiadau o'r negeseuon Saesneg sy'n ymwneud â'n gweithgareddau ar draws y DU ar y cyfrif [@Ofcom](#). Er enghraifft, rydym wedi rhannu astudiaethau achos Cymreig o'n hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd, Cymru, wedi anfon negeseuon trydar byw o'n digwyddiadau yng Nghaerdydd, ac wedi rhannu fideos a lluniau o ymweliadau ein swyddog sbectrwm â safleoedd ledled Cymru. Mae ein rhanddeiliaid wedi croesawu'r mentrau hyn.
- 2.11 Mae gennym yr un dull gweithredu ar gyfer cyfieithu negeseuon trydar ag sydd gennym ar gyfer cynhyrchu cyhoeddiadau, sef y perthnasedd a'r diddordeb tebygol i ddefnyddwyr yng Nghymru.
- 2.12 Ym mis Mawrth, gwnaethon ni gynhyrchu fideo chwe munud o hyd am radio Cymraeg a gafodd ei ffilmio yng Nghaerfyrddin. Roedd yn cynnwys nifer o gyfranwyr Cymraeg, a chafodd ei rannu mewn digwyddiad i randdeiliaid yn y swyddfa yng Nghaerdydd.
- 2.13 Ym mis Rhagfyr 2018 fe wnaethom lansio ein gwefan Gymraeg newydd [Y Gorau O'ch Gwesanaeth](#), sef ein hymgyrch uchel ei phroffil i helpu pobl i gael gwell bargeinion band eang.
- 2.14 Rydym yn parhau i ddatblygu'r cynnwys Cymraeg ar wefan Ofcom. Cafodd uwchraddiad CMS, (System Rheoli Cynnwys), ei gwblhau ym mis Awst 2019 i wneud yn siŵr bod ei nodweddion yn cyfateb i'r safle Saesneg.

- 2.15 Ym mis Medi 2019, fe wnaethom lansio ein hymgyrch gwybodaeth defnyddwyr [‘Neges i Newid’](#) yn Gymraeg. Gydag hysbysebion ar y radio ac ar-lein am ddeg wythnos, ei nod yw codi ymwybyddiaeth o fesurau newid a gwella ymgysylltiad yn y marchnadoedd band eang a symudol.
- 2.16 Mae Cymraeg yn rhan o fywyd bob dydd yn Ofcom Cymru. Mae ein digwyddiadau i randdeiliaid yn ddwyieithog wrth reswm, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn bodloni disgwyliadau rhanddeiliaid i allu cyfathrebu â ni’n Gymraeg. Caiff cyflwyniadau Ofcom eu dangos yn ddwyieithog gan ddefnyddio dwy sgrin. Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o’r Gymraeg i’r Saesneg ar gael ym mhob digwyddiad. Er enghraifft eleni, yn ein digwyddiad Cynllun Blynyddol Ofcom ym mis Ionawr, ein digwyddiad Radio yng Nghymru ym mis Mai a’n digwyddiad Arloesedd Di-wifr ym mis Gorffennaf.
- 2.17 Roedd aelod o staff Ofcom sy’n siarad Cymraeg yn bresennol yn ein grwpiau ffocws BBC News ym Mangor ac Abertawe ym mis Mai 2019, a hynny i hwyluso ac annog trafodaethau yn Gymraeg.
- 2.18 Rydyn ni wedi cynhyrchu llawer o gyhoeddiadau allweddol yn Gymraeg, gan gynnwys [Adroddiad Blynyddol Ofcom 2018-19](#), [Cysylltu’r Gwledydd 2018, Cymru](#), [Cyfryngau’r Genedl 2019, Cymru](#), [Adroddiad Blynyddol y BBC 2018-19](#), a’n [Hadolygiad o’r Canllawiau ar Gynyrchiadau a Rhaglenni Rhanbarthol ar gyfer y Teledu 2019](#).
- 2.19 Mae [ein prif ymgynghoriadau](#) yn cynnwys ffurflen ymateb Gymraeg er mwyn gwneud yn siŵr bod siaradwyr Cymraeg yn gallu darparu adborth a sylwadau yn yr iaith o’u dewis.
- 2.20 Yn olaf, mae Ofcom yn cofnodi sut rydyn ni’n ystyried diddordebau siaradwyr Cymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi. Fe y nodir yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom, rydym wedi mabwysiadu proses ffurfiol o bennu’r canlyniadau i siaradwyr Cymraeg mewn ffordd fwy strwythuredig a mesuradwy wrth wneud penderfyniadau polisi. Gwnawn hyn drwy ein [Cynllun ar gyfer Gweithredu Safonau’r Gymraeg](#). Mae wedi’i fodelu ar fframwaith sy’n cael ei ddefnyddio ar draws Ofcom i werthuso canlyniadau i ddefnyddwyr.

Cwynion

- 2.21 Nid yw Ofcom wedi cael unrhyw gwynion uniongyrchol ynghylch ein gwaith o gydymffurfio â’r safonau darparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
- 2.22 Mae Gweithdrefnau Cwyno Ofcom yn esbonio sut rydym yn delio â chwynion ynghylch ein gwaith o gydymffurfio â’r safonau darparu gwasanaethau. Mae’n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â’r rhain. Gellir gweld y [Gweithdrefnau Cwyno](#) ar ein gwefan ac mae copi caled ar gael yn swyddfa Ofcom Cymru hefyd. Gall aelodau o’r cyhoedd gysylltu â ni ar unrhyw adeg i drafod materion yr iaith Gymraeg neu gwynion cysylltiedig, ac rydym yn eu hannog i wneud hynny ar y wefan.

A1. Ein gweithdrefn safonol ar gyfer cyfieithu dogfennau

- A1.1 **Asesu a oes angen cyfieithu.** Os bydd dogfen (er enghraifft, dogfen ymgynghori, adroddiad, crynodeb gweithredol, datganiad newyddion, tudalen we, neges drydar, neu e-bost diweddarau rhanddeiliaid) yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr a dinasyddion yng Nghymru, neu'n debygol o fod yn arbennig o berthnasol iddynt, byddwn yn cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ddogfen ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.
- A1.2 **Trafodaethau rheolaidd am ofynion cyfieithu.** Mae penderfyniadau ynghylch cyfieithu'n cael eu trafod a'u cytuno mewn cyfarfod wythnosol rhwng timau Gwledydd Ofcom, gan gynnwys Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg a'n prif dîm cyfathrebiadau yn Llundain.
- A1.3 **Gweithio'n agos gyda'r timau polisi.** Mae'r person sy'n arwain prosiect yn cael gwybod gan y tîm cyfathrebiadau ac Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg bod angen cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ddogfen. Wedyn, mae'r gofyniad hwn yn cael ei ymgorffori yn ein hamserlen gyhoeddi i wneud yn siŵr nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn 'llai ffafriol', a'i bod yn cael ei chyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.
- A1.4 **Gweithio'n agos gyda'r cyfieithwyr.** Mae gan Ofcom Cymru berthynas waith gadarnhaol iawn â'n cyfieithwyr. Maen nhw'n cael gwybod cyn gynted ag sy'n bosibl bod dogfen y bydd angen ei chyfieithu ar y ffordd, a chytunir ar amserlen dychwelyd i gyd-fynd â'r dyddiad cyhoeddi. Darperir amcangyfrif o nifer y geiriau hefyd lle bo hynny'n bosibl. Mae ein cyfieithwyr bob amser yn cyfieithu dogfennau Ofcom i'r safon uchaf, a hynny'n brydlon. Maen nhw hefyd yn cynnal geirfa o dermau cymhleth Ofcom er mwyn sicrhau cysondeb ar draws cyfieithiadau. Eu nod yw gwneud yn siŵr bod cyfieithiadau i'r Gymraeg mor glir a chynhwysfawr â phosibl, a hynny drwy ddilyn egwyddorion "Cymraeg Clir".
- A1.5 **Gwirio'r ansawdd.** Mae dogfennau Cymraeg wedyn yn cael eu prawfddarllen a'u golygu gan Uwch Gynghorydd yr Iaith Gymraeg, cyn cael eu hanfon ymlaen at y tîm cyfathrebiadau i'w cyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiynau Saesneg.